

CYNGOR SIR YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod Arbennig Rhithiol a gynhaliwyd ar yr 25ain o Ebrill 2022

- PRESENNOL:** Cyngorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Cyngorydd Dafydd Roberts (Is-Gadeirydd)
- Cynghorwyr R Dew, John Griffith, K P Hughes, T LI Hughes MBE,
Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones,
Eric Wyn Jones, G O Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery,
R G Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees,
Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Murley Roberts,
Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a Robin Williams
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Dirprwy Brif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151,
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/
Swyddog Monitro,
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth Gwasanaethau Tai,
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol,
Swyddog Cyfathrebu (GJ),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN
BRESENNOL:** Dim
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr A M Jones, Richard Owain Jones, Bryan Owen a
Nicola Roberts

1. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Ni dderbyniwyd unrhyw gyhoeddiadau.

3. **PROTOCOL CYN-ETHOLIAD AR GYFER GWEITHWYR AC AELODAU ETHOLEDIG ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL - DYDD IAU 5 MAI 2022**

Cyflwynwyd y Protocol Cyn Etholiad ar gyfer Gweithwyr ac Aelodau Etholedig ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol – 5 Mai, 2022 i'r Cyngor er gwybodaeth.

4. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth Dros Dro (Busnes y Cyngor)/Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 25 Ebrill, 2022 i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio – Corfforaethol fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cyflwyno newidiadau i gylch gorchwyl rhai Pwyllgorau yn bennaf y Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio a Safonau.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod y newidiadau i'r Cyfansoddiad yn disgyn i 2 gategori sydd yn gyntaf angen diwygiadau i adlewyrchu'r Pwyllgor Safonau a Llywodraethu ac Archwilio fel y gwelir yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad ac yn ail gan fod yr adolygiad ffiniau diweddar wedi arwain at gynnydd yn nifer yr Aelodau Etholedig ar y Cyngor o 30 i 35 ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai. Effaith hyn yw y bydd angen newid nifer yr Aelodau ar rai pwyllgorau. Nododd ymhellach y bydd traean o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys aelodau lleyg (8 Aelod Etholedig a 4 Aelod Lleyg).

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Gwaith fel a ganlyn:-

- **Mabwysiadu'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad;**
- **Cytuno i'r newidiadau a argymhellir a dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Monitro wneud y newidiadau i'r Cyfansoddiad fel yr argymhellir ynghyd ag unrhyw newidiadau atodol neu ganlyniadol sy'n codi.**

5. PENODI AELODAU LLEYG AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Ebrill, 2022 i'r Cyngor ei dderbyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y derbyniwyd 13 o geisiadau a bod pedwar ymgeisydd wedi'u dewis ar gyfer cyfweliad. Mae Mr Dilwyn Evans, yr aelod lleyg presennol, wedi nodi ei fod yn fodlon gwasanaethu am ail dymor o bum mlynedd. Roedd y Panel yn cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn cyfweld â'r pedwar ymgeisydd ym mis Chwefror 2022 a dewiswyd y canlynol i wasanaethu ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 ymlaen:-

Mr Michael Wilson
Mrs Sharon Warnes
Mr William Parry

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:-

- **Penodi'r tri ymgeisydd yn aelodau lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;**
- **Cytuno i benodi'r aelod lleyg presennol am ail dymor o bum mlynedd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 am

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES
CADEIRYDD**